## DYFED EVANS yn dal i gofio

# Straeon y Brifwyl

DARLLENAIS yn ddiweddar fod rhyw ddiffyg yn y sawl sy'n gweld Eisteddfodau Cenedlaethol yn rhedeg i'w gilydd yn un llinyn heb allu gwahaniaethu rhyw lawer rhyngddynt. Beth bynnag fo'r diffyg hwnnw, rwy'n pledio'n euog.

Ond mae eithriadau, wrth gwrs. Un o'r mannau hynny yw Aberystwyth lle dychwel y Brifwyl eleni wedi deugain mlynedd. Mi gofiaf Eisteddfod 1952 am amryw resymau.

Gohebydd i'r *Cymro* oeddwn i yn y blynyddoedd hynny, ac yno, yn Aberystwyth y sicrhaodd y papur 'sgŵp newyddiadurol y flwyddyn' yng Nghymru. Nid myfi sy'n honni hynny, ond Golygydd y cylchgrawn hwn! Sicrhau pryddest Harri Gwynn, 'Y Creadur', oedd y gamp wedi ymosodiad deifiol yr Athro W.J. Gruffydd ar gystadleuaeth y goron.

'Roedd y ddadl wedi ffrwtian ers blynyddoedd. A allai'r Awen Newydd gyd-gerdded â'i chwaer mwy hen-ffasiwn? Am beth y dylid barddoni? Beth oedd fydr — ac yn wir beth oedd fudr? Gyda'r chwilen ddu yng ngwisg yr angau yn Aberystwyth fe dorrodd yr argae.

* * *

CYN 1952 nid gwaith hawdd i ohebydd ar ddyddiau'r coroni a'r cadeirio oedd darganfod pwy oedd y beirdd a ddaethai'n ail neu'n drydydd. Mantais fawr bid siŵr oedd bod yn gyfarwydd â gwŷr fel T.Llew Jones, Isfoel ac Alun y Cilie, rhai a'u clustiau'n bur agos i'r ddaear. Mi gefais i lawer o gymorth ganddynt.

Yn Aberystwyth, wedi'r fflangellu gan W.J. ar y llwyfan a'r goron wedi ei hatal am fod David Jones, Blaenplwyf yn cytuno ag ef, 'roedd hi'n bwysicach nag arfer i ffureta am 'Efnisien', un o'r beirdd, yn ôl yr Athro Gruffydd, a fynnai 'fynegi eu cynhyrfiadau mewn iaith ac ymadrodd wedi eu llunio o bwrpas i roddi sioc i'r darllenydd cyffredin . . .' A dyma'r bardd yr oedd Euros Bowen, y trydydd beirniad, yn fodlon ei goroni.

Doed o hyd iddo yn ddigon naturiol yn y Babell Lên. Credai aml un ar y pryd mai am fod Harri Gwynn yn ysgrifennu ei golofn 'Rhwng Godro a Gwely' i'r *Cymro*, am ei fod yn ffrind i'r Golygydd ac yn gyd-fyfyriwr ag ef ym Mangor — mai oherwydd hynny y llwyddwyd i gael gafael ar y gyfrinach; am y gwyddid ymlaen llaw fod Harri Gwynn yn ymgeisio am y goron ac y rhagwelwyd tynged ei bryddest ddadleuol. Ond na, nid felly!

Wedi'r feirniadaeth yn y pafiliwn 'doedd gan neb syniad pwy oedd 'Efnisien'. 'Doedd dim goleuni nac awgrym hyd yn oed gan y gwŷr cyfarwydd. Ond yn y Baball Lên yn ddiweddarach y prynhawn a W.J. yn traethu drachefn sylwais fod Harri Gwynn yn gwrando'n astud iawn arno.

Sylwadau gwahanol a draddodai W.J. yno, ond nid llai deifiol ychwaith. 'Roedd y mwyafrif o'r beirdd penrhydd, meddai 'rwan, 'wedi gweld cyfle i fath gwyrgam o ddiefledigrwydd fel yr hen Fanicheaeth ddiwinyddol'. Ond roedd yn cydnabod mai 'Efnisien' hwyrach, o'r holl feirdd penrhydd hyn a ddaethai nesaf at ffurf o farddoniaeth.

Wrth weld ymateb Harri Gwynn sibrydais fy amheuon wrth Geoff Charles ac yn ddistaw, heb ddefnyddio fflach, tynnodd yntau lun o'r bardd yn gwrando. Ar y diwedd aed ato a chydnabu mai ef oedd 'Efnisien'.

Bûm unwaith dan yr argraff imi weld Harri yn rhoi pwniad i Eirwen, ei briod, wrth ei ochr ar ôl ambell sylw gan W.J. Ond y cof a fu'n chwarae triciau, mae'n rhaid. O edrych eilwaith ar y llun gwelaf mai ei gyfaill Ithel Jones, prifathro Tal-y-bont, Ceredigion a eisteddai yn y gadair agosaf ato yn y Babell Lên.

* * *

Y DIWEDDAR Wil Williams a gafodd afael ar gopi o'r bryddest tua chefn y pafiliwn yn rhywle. 'Doedd dim curo ar Wil Cymro am gael ei law ar bethau prin, boed lyfr, boed jŵg neu bryddest. Cyn naw o'r gloch nos Fawrth 'roedd y gerdd, y stori a'r llun yn ddiogel yn Swyddfa'r *Cymro* yng Nghroesoswallt.

Ar ôl 1952 ni bu mor anodd darganfod yr ail a'r trydydd am y goron a'r gadair, yn enwedig pan ddywedai un o'r beirniaid eu bod yn deilwng. Yn wir, ar ôl hynny cafwyd cynnig ar gerddi i'w cyhoeddi fwy nag unwaith.

* * *

MI GOFIAF yr wythnos ar ôl Eisteddfod Aberystwyth hefyd. Fu honno ddim heb ei chynnwrf i mi ychwaith.

Ar y dydd Mawrth 'roedd Robin Griffith a minnau i wneud dilyniant i'r digwyddiadau. Mynd i Dyddyn Cwcallt yn Rhos-lan i ddechrau i weld Harri Gwynn, cael hanes ei wyth buwch, y pedwar llo, y tair hwch a'r deunaw o foch bach, debyg iawn — a'i adwaith i'r holl helynt ynglŷn â'r 'Creadur'.

'Roedd Harri wedi cael pleser mawr fod y werin wedi darllen y bryddest a chael cyfle felly i weld bod modd darllen y farddoniaeth fodern fel y'i gelwid. A gwadu, gwadu'n bendant iddo geisio siocio neb.

Ymlaen o Ros-lan i Lanegryn i weld y Prifardd John Evans a'i ardd a'i ddeg cwch gwenyn. Gyda chadair Aberystwyth am ei awdl i 'Dwylo' roedd wedi sicrhau cadair eisteddfodol i bob un o'i wyth plentyn, ac roedd rhyw gymdeithas o Dywyn wedi ei anrhegu â stôl i'r wraig.

* * *

DYNA'R straeon a'r lluniau wedi eu sicrhau. Ar y ffordd adref daeth galwad natur. 'Roedd un ohonom bron â byrstio, a chan fod y ffordd mor gul a throellog ac yn beryglus i stopio arni tua Llwyngwril, troes Robin drwyn y car, hen Vauxhall o oes yr arth a'r blaidd, i geg lôn drol a arweiniai ar oriwaered at feudai islaw'r ffordd.

Yno yr aeth pethau o chwith. 'Roedd y car mewn caethgyfle, yn troi yn yr unfan. Cafwyd pwyllgor brys a phenderfynu mentro mynd â'r car i lawr i waelod y lôn fach, troi'n ôl ar y gwastad a rhoi traed arno i fyny'r rhiw.

I hanner yr allt y dôi — a dim pellach. Erbyn hyn 'roedd hi'n hwyr brynhawn a minnau eisiau cyrraedd Caernarfon, gryn hanner can milltir i ffwrdd, ysgrifennu'r ddwy stori a datblygu a phrintio'r lluniau i'w rhoi ar y trên wyth i gyrraedd Croesoswallt ar gyfer y papur a âi i'w wely trannoeth.

Gwewyr, ddywetsoch chi! Ffyliaid yn mynd i'r fath le! Aethom i fyny at y ffordd fawr. A'r munud hwnnw, yn llythrennol y munud hwnnw, dyma lori rownd y gornel. Lori o fodurdy yn Nhywyn ac arni wins a chraen! O fewn pum munud 'roeddem yn chwyrlio am Gaernarfon. Pe medrem ganu — fe ganem.

# Cofio E.D.

YSGOLHAIG a gŵr bonheddig a wnaeth ddiwrnod da o waith tros Gymru a'i hetifeddiaeth oedd y diweddar E.D. Jones, 1903-1987. Bu'n gyfaill mawr i'r *Casglwr* pan oedd yn Llyfrgellydd Cenedlaethol ac yn gefn gweithgar i lawer mudiad.

Yn awr medrir amgyffred maint ei wybodaeth a'i gyfraniad mewn cyfrol sydd newydd gael ei chyhoeddi gan un o'i edmygwyr, Huw Walters. Y teitl yw 'Llyfryddiaeth' ac yma ceir cofnod o holl ysgrifeniadau E.D. Jones o 1926 hyd 1986, yn dechrau gydag ysgrif Saesneg, 'T. Gwynn Jones and Welsh Literature' yn *The Dragon* ac yn gorffen gyda chyfraniad at 'Hen Gyfrolau Coffa' yn *Y Casglwr*.

Cyhoeddir y gyfrol ar ei liwt ei hun gan Huw Walters, yn nifer cyfyngedig o gopïau am 1.75 y copi — 2 trwy'r post oddi wrth Huw Walters, Bryn-teg, Ael Dinas, Aberystwyth.

## Ymyl y ddalen

# Aberth y Geiriadur

YN 1753 yr ymddangosodd geiriadur Cymraeg-Saesneg Thomas Richards, offeiriad Llangrallo (*Coychurch*) ym Morgannwg, geiriadur sylweddol a argraffwyd ym Mryste gan Felix Farley.

Ar ddiwedd ei lith 'At y Cymry' ar ddechrau'r gyfrol rhoddodd Thomas Richards y dyddiad 'Dydd Calan-Mai 1751', a thua'r adeg honno y derbyniodd Wiliam Morris o Gaergybi 'proposal' y gwaith gan ei frawd Richard a oedd yn byw yn Llundain, a chais hefyd i geisio enwau tanysgrifwyr.

Dangosodd Wiliam y 'proposal' i nifer o offeiriaid a gwŷr bonheddig Môn, a'r mwyafrif ohonynt yn addo tanysgrifio pe trefnai Thomas Richards rywun cymwys i dderbyn eu harian. Y diwedd fu i Wiliam Morris ei hun, gyda pheth cymorth gan ei dad oedrannus, ysgwyddo'r cyfrifoldeb o wneud hynny.

Erbyn 29 Tachwedd 1751 yr oedd y gŵr o Gaergybi wedi anfon enwau deg tanysgrifiwr at Richard yn Llundain.

Ddwy flynedd a deufis wedi hynny, sef 15 Chwefror 1753, rhydd Wiliam gyfarwyddiadau i'w frawd ynglŷn â'r geiriadur: **would best be sent down in a bundle, 15 for my list and 5 for father, directed to the care of Mr. Thomas Bryan, merchant in Llanerchmedd.**

Wedi hir ddisgwyl da gan Wiliam hysbysu ei frawd, Hen Ŵyl Fair 1753: 'Yr wythnos ddiwaetha y daeth y boccys ar geirlyfrau ynddaw i ben ei siwrnai . . .' Gan ddilyn cyfarwyddiadau ei frawd yn Llundain, talodd Wiliam yr arian am un copi ar bymtheg i'w dad (i ddileu rhyw ddyled neu'i gilydd, mae'n debyg) a Richard yn Llundain yn talu'r arian i'r awdur.

Costiodd cludo copïau o'r geiriadur i Fôn saith swllt a'r tanysgrifwyr wedi talu chwe swllt bob un am eu copi, ond nid heb rwgnach. Ebr Wiliam: 'Pawb yn achwyn fod y geirlyfr yn ddrud anial.'

Gwaeth na hynny yw ei awgrym fod argraffu'r gyfrol wedi peri i Felix Farley fynd yn fethdalwr: 'mae'n ddrwg yn fy nghalon fod y geirlyfr wedi dihenyddu Ffelix yr argraphwr.' Dylem barchu cyfrol Thomas Richards oherwydd yr ymdrech a'r aberth a olygodd ei ysgrifennu, ei argraffu, ei gyhoeddi a'i ddosbarthu.

D.W.W.